# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Robert Smith | Adran Etholiadol: | Llwchwr Uchaf |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Rwyf wedi cynnal cymorthfeydd misol yn y neuadd les, Casllwchwr, a ategwyd gan gymorthfeydd stryd a chyfleoedd eraill i gwrdd â phreswylwyr. Ar ben cymorthfeydd agored, cynullais gyfarfodydd cymunedol i drafod materion cynllunio a pharcio a chynhaliais arolwg preswylwyr mewn dwy ran o'r ward. Roedd dau o'r cyfarfodydd preswylwyr yn ymdrin yn benodol â cheisiadau safleoedd ymgeisiol dan broses yr CDLl ac un arall â chais cynllunio penodol. Rwyf hefyd wedi parhau i gymryd rhan mewn nifer mawr o sefydliadau cymunedol a gwirfoddol a chyda'r ysgolion lleol.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

*Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol*.

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Archwilio | 7 | / | 9 | 78 | % |
| Y Cyngor | 16 | / | 18 | 89 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Datblygu | 0 | / | 1 | 0 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Addysg a Phobl Ifanc | 7 | / | 7 | 100 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Atal a Diwygio Gofal | 6 | / | 7 | 86 | % |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 12 | / | 14 | 86 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Gwasanaethau | 3 | / | 4 | 75 | % |
| Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg | 4 | / | 4 | 100 | % |
| **CYFFREDINOL** | **55** | **/** | **64** | 86 | **%** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfarfodydd Craffu** | | | | | |
| Gweithgor Craffu Digwyddiadau Dinesig | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Gweithgor Craffu Ceffylau Wedi'u Clymu | 2 | / | 3 | 67 | % |
| **CYFFREDINOL** | **3** | **/** | **4** | 75 | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Rwyf wedi cynrychioli'r cyngor ar Fwrdd Cyfarwyddwyr Pwll Cenedlaethol Cymru ac ar Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe ac wedi cyfrannu i'w trafodaethau.
Rwy'n gwasanaethu fel cynghorydd ar Gyngor Tref Llwchwr ac roedd gennyf anrhydedd gwasanaethu fel Maer ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2015-16. Ar yr un pryd, rwyf wedi gwasanaethu fel Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gymraeg Pontybrenin a Llywodraethwr Ysgol Gyfun Gŵyr.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Dygwyd nifer o fentrau i ffrwyth eleni. Mae'r rhain yn cynnwys y terfyn cyflymder 20mya a mesurau gostegu traffig cysylltiedig yn Heol Waun a Heol Glan-y-môr a'r cynllun ar y gweill yn Heol Belgrave. Rwyf hefyd yn gweithio gyda swyddogion i fynd i'r afael â materion diogelwch ffyrdd yn Heol y Glebe, Heol y Fwrdeistref, Heol Dan-y-bryn a Heol y Bryn. Mae nifer o gynlluniau cymunedol eraill hefyd wedi'u cwblhau eleni, gan gynnwys plannu blodau gwyllt yn Heol Cae Copyn ac ym Mlaendraeth Llwchwr.

Mae'r cyngor wedi ymroi i waith atgyweirio ym Mlaendraeth Llwchwr a ohiriwyd oherwydd y gwaith ychwanegol a nodwyd yno ac, ar hyn o bryd, rwy'n ceisio mynd i'r afael â'r broblem gyda'r lôn sy'n arwain i Ysgol Gynradd Tre-uchaf.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Euthum i'r sesiwn hyfforddi ganlynol:

29/10/2015 - Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Yn ystod y flwyddyn, gwasanaethais fel Maer Llwchwr, gan godi bron £3,000 ar gyfer elusennau lleol trwy ddigwyddiadau codi arian. Rwy'n hynod ddiolchgar am y gefnogaeth a roddwyd i bob un o'r digwyddiadau codi arian a gynhaliwyd eleni. Yn ystod fy mlwyddyn yn y swydd, ymwelais â phob ysgol gynradd yn ardal Llwchwr i gwrdd â'r disgyblion Blwyddyn 6 sy'n gadael i fynd i'r ysgol uwchradd a chyflwynais blatiau i bob preswylydd a gyrhaeddodd 90 oed. Eleni, cyrhaeddodd preswylydd 100 oed ac roedd yn anrhydedd cael fy ngwahodd gan y teulu i'r dathliad. Diolch yn arbennig i'm cyd-aelodau yng Nghapel Bedyddwyr Penuel, Casllwchwr, a gynhaliodd wasanaeth dinesig i ddiolch am fy mlwyddyn yn y swydd ac i Glwb y Gweithwyr, Casllwchwr, am ddarparu lleoliad mor ardderchog ar gyfer noson y Maer. Diolch hefyd i'r sefydliadau lleol eraill a'm gwahoddodd i dystio i'w cyfraniadau amrywiol i'n bywyd cymunedol moethus.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 27.05.2016 |